# Cyngor Gwynedd
# Strategaeth Arwyddo Bangor
Ymgynghoriad Cyhoeddus 13.07.22

Mehefin 2020

ABG Design





**Mae cysylltedd yn allweddol, yn cysylltu pobl â lle**

© Hawlfraint ABG Design

# Ardal y prosiect

**Nodiadau:**

Llif cerddwyr drwy'r Ddinas fel y'i diffinnir gan Gyngor Gwynedd




© Hawlfraint ABG Design

## Cyflwyniad

Tynnwyd sylw at yr angen am strategaeth canfod y ffordd i gerddwyr ym Mangor yn Uwchgynllun Dinas Bangor 2020. Er mwyn symud ymlaen i weithredu rhai o ganfyddiadau'r Uwchgynllun, mae Cyngor Gwynedd wedi comisiynu ABG Design i greu strategaeth canfod y ffordd i gerddwyr. Mae'r prosiect wedi bod yn bosibl drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.

Bydd strategaeth gyson o ran canfod y ffordd yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o wneud Bangor yn ddinas gyfeillgar a chroesawgar. Nid yn unig y bydd yr arwyddion yn darparu gwybodaeth hanfodol i ymwelwyr o ran canfod y ffordd, byddant yn help i adfywio'r ddinas drwy wneud iddi edrych a theimlo'n well.

© Hawlfraint ABG Design

## O’n harchwiliad o’r arwyddion presennol, rydym wedi sylwi:

- Mae angen diweddaru’r mynegbyst presennol gan nad yw’r wybodaeth arnynt yn gyfredol ac mae angen eu trwsio
- Maen nhw’n ymdoddi i’r amgylchedd ac mae’n hawdd peidio â’u gweld
- Mae angen system y gellir ei diweddaru’n hawdd wrth i adeiladau newydd gael eu cyflwyno
- Byddai’r ddinas yn elwa o arwyddion monolith mwy o faint mewn lleoliadau strategol, sy’n darparu mwy o wybodaeth i ymwelwyr
- Byddai’r ddinas yn elwa o fap newydd gyda mynegai cynhwysfawr o’r holl bwyntiau allweddol o ddiddordeb. Byddem yn awgrymu bod hyn yn cael ei greu o bedwar cyfeiriad gwahanol gyda marcwyr ‘Rydych chi yma’ i’ch helpu o ran cyfeiriad a chanfod y ffordd. Byddai hyn yn gweithio ar y cyd â’r mynegbyst a’r monolithau i ddarparu dull cyson a chydgysylltiedig o ganfod y ffordd. Dylech nodi bod map newydd i’r ddinas y tu hwnt i gwmpas y prosiect hwn ar hyn o bryd.

**Mae’r ddogfen hon yn nodi strategaeth ar sut y gellid darparu arwyddion a dulliau canfod y ffordd ar gyfer Bangor yn y dyfodol gyda’r nod o gynnig dull cyson o ymdrin ag arwyddion ar draws y ddinas.**

© Hawlfraint ABG Design

## Pam fod angen strategaeth canfod y ffordd ar Fangor?

Dinas fach ar y Fenai yng Ngogledd Cymru yw Bangor, yn agos at Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'n ddinas fywiog gyda phoblogaeth o fyfyrwyr sy'n mynd a dod. Mae hefyd yn denu ymwelwyr i'r llu o gyrchfannau diwylliannol a hanesyddol yn y ddinas. Mae atyniadau arfordirol allweddol yn agos at ganol y ddinas hefyd, fel Bae Hirael a'r Pier sydd, yn ddiweddar, wedi ennill Pier y Flwyddyn 2022 gan y Gymdeithas Pierau Genedlaethol.

Dros y blynyddoedd, bu nifer o wahanol brosiectau ym Mangor i ddarparu dulliau canfod y ffordd, gwybodaeth a mapiau i ymwelwyr. Er i bob un fod yn bwysig a llwyddiannus ar y pryd, mae angen dod â phopeth ynghyd nawr a mynd ati i ddarparu arwyddion drwy un dull cyson, unffurf, sy'n llawn gwybodaeth.

© Hawlfraint ABG Design

## Nodau ac Amcanion

Ar hyn o bryd, dim ond pedwar mynegbost sy’n agos at ganol y ddinas. Nid oes arwyddion ar hyn o bryd sy’n rhoi gwybodaeth i ymwelwyr am y gwahanol gyrchfannau yn y ddinas. Nod y prosiect hwn yw ehangu’r mynegbyst i gynnwys taith i gerddwyr o’r orsaf drenau i ganol y ddinas ac ymlaen i Fae Hirael a’r Pier. Edrychir hefyd ar strategaeth ar gyfer arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr.

Amcanion y strategaeth yw creu:

- Dyluniad arwyddion dwy iaith yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Dyluniad sy’n darparu gwybodaeth mewn ffordd sy’n hawdd ei deall
- Llwybr clir, diogel a chydlynol drwy’r ddinas
- Dyluniad sy’n gydnaws â’r ddinaslun a’r ardal gyfagos
- System arwyddion gref a chadarn y gellir ei diweddaru’n hawdd i adlewyrchu datblygiadau yn y dyfodol.

© Hawlfraint ABG Design

## Elfennau allweddol

Mae dwy elfen allweddol i'r strategaeth.

Arwyddion monolith – strwythur ar ei draed ei hun i'w osod mewn lleoliadau allweddol. Bydd yn bennaf yn cynnwys dyluniad map o'r ddinas gyfan, a gwybodaeth farchnata ychwanegol.

Arwyddion mynegbost – arwydd ar ei draed ei hun, sef postyn gydag un fraich neu fwy, sy'n pwyntio i gyfeiriad pob cyrchfan allweddol.

## Sut bydd y strategaeth yn cael ei gwireddu?

Nid yw Cyngor Gwynedd yn disgwyl i'r strategaeth arwyddion gael ei gwireddu mewn un cam. Gobeithir y bydd Cyngor Gwynedd, gan weithio gyda phartïon sydd â diddordeb yn lleol, yn gallu targedu cyllid adfywio.

Nid oes cyllid wedi'i sicrhau eto. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd Cyngor Gwynedd yn gallu ariannu'r gwaith o gynhyrchu a gosod y mynegbyst drwy gyllid adfywio cymunedol.

Wedyn, gobeithir y bydd sefydliadau eraill sydd â buddiant ym Mangor yn gallu ariannu'r arwyddion monolith.

© Hawlfraint ABG Design

# Prif gyrchfannau

Dyma'r cyrchfannau allweddol yn y ddinas...

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gorsaf Drenau** | **Canol y Ddinas** | **Cadeirlan** | **Gorsaf Fysiau** |
| **Neuadd y Dref** | **Toiledau** | **Nyth** (elusen canolfan berfformio ddiwylliannol ar gyfer pobl ifanc) | **Pwll Nofio** |
| **Bae Hirael** | **Llyfrgell Gyhoeddus** | **Storiel** | **Parc y Coleg** |
| **Derbynfa'r Brifysgol** | **Neuaddau Preswyl** (Ffriddoedd a'r Santes Fair) | **Y Stryd Fawr** | **Pier** |
| **Gorsaf yr Heddlu** | **Porth Penrhyn** | **Castell Penrhyn** | |

© Hawlfraint ABG Design

## Sail resymegol dros leoliad yr arwyddion

Nododd ein harchwiliad arwyddion ym Mangor ar 15/16eg Mawrth 2022 fod gwir angen mwy o fynegbyst ar draws y ddinas gan mai dim ond pedwar sydd yng nghanol y ddinas ar hyn o bryd.

Dechreuodd ein llwybr cerdded yn yr orsaf drenau gan barhau ar hyd Ffordd Deiniol, canol y ddinas a'r cyffiniau ac yna i lawr i'r pier.

O'r orsaf drenau, mae'r croesfannau ffordd presennol a'r rhwystrau i gerddwyr yn yr orsaf yn golygu mai'r ffordd naturiol o gerdded i lawr i ganol y ddinas fyddai ar hyd y llwybr troed ar ochr dde Ffordd Deiniol. Oherwydd hyn, rydym yn awgrymu bod yr holl fynegbyst yn cael eu lleoli'n gyson ar ochr canol y ddinas o Ffordd Deiniol.

Mannau penderfynu i gerddwyr ar hyd y daith sydd wedi pennu lleoliadau'r mynegbyst. Rydym wedi ceisio sicrhau bod llinellau gweld da o un mynegbost i'r nesaf ac rydym wedi ceisio cadw'r pellteroedd yn gyson.

© Hawlfraint ABG Design

# Lleoliadau mynegbyst arfaethedig

**Lleoliadau mynegbyst arfaethedig ledled y ddinas.**


**Rydym wedi ceisio gosod mynegbost ar bob pwynt pwysig sy'n galw am benderfyniad cyfeiriol gan y defnyddiwr.**

Cysyniadol yw'r union leoliadau, a bydd gofyn i'r tîm gytuno arnynt.

Bydd angen cynnal asesiad peirianneg hefyd ym mhob lleoliad i wneud yn siŵr bod lled y llwybrau troed yn ddigonol i gerddwyr, gan gynnwys pobl anabl, ac i sicrhau na chyfyngir ar weledd i gerbydau.

**Allwedd:**

- Mynegbost presennol
- Mynegbost newydd arfaethedig




© Hawlfraint ABG Design

# Lleoliadau monolithau arfaethedig


**Lleoliadau monolithau arfaethedig ledled y ddinas.**

Cysyniadol yw'r union leoliadau, a bydd gofyn i'r tîm gytuno arnynt.

Bydd angen cynnal asesiad peirianneg hefyd ym mhob lleoliad i wneud yn siŵr bod lled y llwybrau troed yn ddigonol i gerddwyr, gan gynnwys pobl anabl, ac i sicrhau na chyfyngir ar welededd i gerbydau.


**Allwedd:**

■ Mononlith newydd




© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** mynegbyst opsiwn 1




**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**

**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol o system mynegbyst fodiwlaidd. Unedau parod ydy'r rhain a fydd yn cadw'r gost fesul uned i lawr.


Gellir eu haddasu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys lliw'r bysedd a'r postyn.

Caiff systemau mynegbyst Octopus eu cynhyrchu o alwminiwm cryf. Gellir gosod bysedd cyfeiriol yr arwydd mewn 8 safle 45 gradd oddi wrth ei gilydd ac mae'n safonol pentyrru 5 lefel ar ben ei gilydd.

Mae'r system ar gael mewn 2 arddull safonol; Treftadaeth a Chyfoes.

© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** mynegbyst opsiwn 2




**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**

**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol o system mynegbyst fodiwlaidd. Unedau parod ydy'r rhain a fydd yn cadw'r gost fesul uned i lawr.


Gellir eu haddasu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys lliw'r bysedd a'r postyn.

Caiff systemau mynegbyst Octopus eu cynhyrchu o alwminiwm cryf. Gellir gosod bysedd cyfeiriol yr arwydd mewn 8 safle 45 gradd oddi wrth ei gilydd ac mae'n safonol pentyrru 5 lefel ar ben ei gilydd.

Mae'r system ar gael mewn 2 arddull safonol; Treftadaeth a Chyfoes.

© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** mynegbyst opsiwn 3




**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**

**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol o system mynegbyst fodiwlaidd. Unedau parod ydy'r rhain a fydd yn cadw'r gost fesul uned i lawr.

Gellir eu haddasu mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys lliw'r bysedd a'r postyn.


Caiff systemau mynegbyst Octopus eu cynhyrchu o alwminiwm cryf. Gellir gosod bysedd cyfeiriol yr arwydd mewn 8 safle 45 gradd oddi wrth ei gilydd ac mae'n safonol pentyrru 5 lefel ar ben ei gilydd.

Mae'r system ar gael mewn 2 arddull safonol; Treftadaeth a Chyfoes.

© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** monolith opsiwn 1

100mm sgwâr




Croeso i ddwy iaith

Pin 'Rydych chi yma' gydag awgrym o radiws amseroedd cerdded

Allwedd pictogram yn Gymraeg ac yn Saesneg

Cyflwyniad / testun croeso am yr ardal gyfagos yn Gymraeg ac yn Saesneg

**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**


**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol ar gyfer arwydd monolith sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn seiliedig ar system barod arall, mae'r monolith hwn yn rhoi gwerth am arian a'r gallu a'r lle i ychwanegu amrywiaeth o graffeg.

Mae maint y systemau hyn yn amrywio, maent ar gael yn llai ac yn fwy. Mae systemau wal hefyd ar gael. Mae casys posteri sy'n sefyll ar eu traed eu hun hefyd ar gael, a gellir eu haddasu i gyd-fynd â'r arddull y cytunwyd arni i'r dref.

© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** monolith opsiwn 2




**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**


**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol ar gyfer arwydd monolith sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn seiliedig ar system barod arall, mae'r monolith hwn yn rhoi gwerth am arian a'r gallu a'r lle i ychwanegu amrywiaeth o graffeg.

Mae maint y systemau hyn yn amrywio, maent ar gael yn llai ac yn fwy. Mae systemau wal hefyd ar gael. Mae casys posteri sy'n sefyll ar eu traed eu hun hefyd ar gael, a gellir eu haddasu i gyd-fynd â'r arddull y cytunwyd arni i'r dref.

© Hawlfraint ABG Design

# **Cysyniad dylunio:** monolith opsiwn 3




Arfbais y dref

Croeso i ddwy iaith

Rhan o'r map yn fawr (map llai o faint oddi tano sy'n dangos yr ardal ehangach)

Pin 'Rydych chi yma' gydag awgrym o radiws amseroedd cerdded

Cyflwyniad / testun croeso am yr ardal gyfagos yn Gymraeg ac yn Saesneg

Allwedd pictogram yn Gymraeg ac yn Saesneg

Map o'r ardal ehangach

**Cysyniadol yw'r dyluniad. Mae'r wybodaeth, y delweddau a'r lliwiau a ddefnyddir at ddibenion gweledol yn unig.**

**Manyleb a Nodiadau:**

Dyluniad cysyniadol ar gyfer arwydd monolith sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Yn seiliedig ar system barod arall, mae'r monolith hwn yn rhoi gwerth am arian a'r gallu a'r lle i ychwanegu amrywiaeth o graffeg.

Mae maint y systemau hyn yn amrywio, maent ar gael yn llai ac yn fwy. Mae systemau wal hefyd ar gael. Mae casys posteri sy'n sefyll ar eu traed eu hun hefyd ar gael, a gellir eu haddasu i gyd-fynd â'r arddull y cytunwyd arni i'r dref.

# Y camau nesaf

- Dewis yr opsiwn gorau ar gyfer datblygu dyluniad
- Cyswllt a datblygu dyluniad
- Deunyddiau a manyleb
- Cyswllt cychwynnol a thrafodaeth gyda’r swyddfa gynllunio
- Cwblhau’r cynllun canfod y ffordd ar ei wedd derfynol a chaniatadau cynllunio

© Hawlfraint ABG Design